OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 2946

Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision Hafan Lydstep 2013

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision Hafan Lydstep 2013 a daw i rym ar 13 Rhagfyr 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr Ardal" *("the Area")* yw'r ardal o wely'r môr ger Hafan Lydstep, Sir Benfro, a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y bysgodfa" (*"the fishery"*) yw'r hawl i bysgodfa unigol a grëir gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cragen las" *("mussel")* yw unrhyw bysgodyn cragen o'r math *Mytilus edulis*;

ystyr "cyfesuryn" *("co-ordinate")* yw cyfesuryn lledred a hydred yn System Geodetig Fyd-eang 1984;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**);

ystyr "y Grantî" *("the Grantee")* yw Pembrokeshire Seafarms Ltd (Rhif y Cwmni: 07587777) sydd â'i swyddfa gofrestredig yn 91 New Road, Ynysmeudwy, Pontardawe, Abertawe, SA8 4PP neu pa bynnag berson arall sydd â hawl i'r bysgodfa am y tro; ac

ystyr "ymgymerydd statudol" *("statutory undertaker")* yw unrhyw berson sydd, neu yr ystyrir ei fod, yn ymgymerydd statudol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth o Ran 11 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**).

Yr hawl i bysgodfa

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae gan y Grantî yr hawl i bysgodfa unigol am gregyn gleision o fewn yr Ardal am gyfnod o 15 mlynedd sy'n dechrau ar 13 Rhagfyr 2013.

Marcio terfynau'r Ardal

4. Rhaid i'r Grantî farcio terfynau'r Ardal ym mha bynnag fodd a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd, a rhaid iddo gynnal y marcwyr hynny yn eu lleoedd ac mewn cyflwr da.

Manylion Daliadau

5.—(1) Rhaid i'r Grantî gyflwyno i Weinidogion Cymru fanylion y daliadau—

(**1**) 2006 p.32. Mae diwygiadau i adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 nad ydynt yn berthnasol I'r Gorchymyn hwn.
(**2**) 1990 p.8 Disgrifir Rhan 11 yn y Ddeddf honno fel "Part XI".

(a) am y cyfnod o 13 Rhagfyr 2013 i 31 Mawrth 2014 ar 31 Gorffennaf 2014 neu cyn hynny; ac wedi hynny

(b) ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Mawrth ar 31 Gorffennaf neu cyn hynny yn y flwyddyn y mae'r cyfnod hwnnw'n dod i ben.

(2) Rhaid i fanylion daliadau at ddibenion paragraff (1) gofnodi—

(a) cyfanswm pwysau byw blynyddol y grawn cregyn gleision hynny a heuwyd yn y bysgodfa;

(b) lleoliad y ffynhonnell y daeth y grawn cregyn gleision hynny ohoni;

(c) cyfanswm pwysau byw blynyddol yr holl gregyn gleision hynny a gymerwyd o'r bysgodfa;

(d) lleoliad y man y cymerwyd y cregyn gleision hynny ohono; a

(e) pa bynnag wybodaeth bellach a fydd yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd ac yr hysbysir y Grantî ohoni.

Cyfrifon o'r incwm a'r gwariant, gwybodaeth arall ac archwilio

6.—(1) Rhaid i'r Grantî roi i Weinidogion Cymru gyfrifon blynyddol o incwm a gwariant y Grantî o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Heb leihau dim ar effaith paragraff (1), rhaid i'r Grantî gydymffurfio ag unrhyw gais a wneir gan Weinidogion Cymru am wybodaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

(3) Rhaid i'r Grantî ganiatáu i unrhyw berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru archwilio'r Ardal a phob cyfrif a phob dogfen arall ym meddiant y Grantî ac sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwn, a rhaid iddo roi i'r person hwnnw unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r materion hyn, y gofynnir amdani gan y person hwnnw.

Hawliau'r Goron

7. Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n lleihau effaith unrhyw ystâd, hawl, pŵer, braint neu esemptiad y Goron, ac yn benodol, nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi'r Grantî i gymryd, i ddefnyddio neu i ymyrryd mewn unrhyw fodd ag unrhyw ran o lan neu wely'r môr neu lan neu wely unrhyw afon, sianel, cilfach, bae neu foryd neu unrhyw dir, hereditamentau, gwrthrychau neu hawliau o unrhyw ddisgrifiad sy'n eiddo i'w Mawrhydi drwy hawl ei Choron ac o dan reolaeth Comisiynwyr Ystad y Goron.

Hawliau ymgymerwyr statudol

8. Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n lleihau effaith unrhyw swyddogaethau statudol a arferir gan ymgymerydd statudol.

Aseinio

9. Ni chaiff y Grantî, heb ganiatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, aseinio'r hawl hwn i bysgodfa, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffordd arall, i unrhyw berson arall.

Alun Davies
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o
Weinidogion Cymru

18 Tachwedd 2013